

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Mawrth 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Harris, Ms J. Hughes, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

117. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd J. Ball.

118. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU - CHWEFROR 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
271	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	6,650.00	Taliadau gwasanaeth ar gyfer Canolfan Wellington Chwarter 4 2017/18
423	Sage & Co	31.00	Gwasanaethau Cyflogres Chwefror 2018
424	HSBC	6.30	Taliadau banc 17eg Rhagfyr 2017 i 16eg Ionawr 2018
425	Sage & Co	4.00	Gwasanaethau cyflogres – ôl-ddyledion oherwydd prisiau newydd
435	Cyngor Sir y Fflint	4,141.80	Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Ionawr 2018
436	HMRC	2,557.41	Didyniadau cyflogres Ionawr 2018
437	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,645.16	Cyflogau staff Chwefror 2018
438	Gunsmoke Communications	1,440.00	Gwasanaethau digwyddiadau 2018
260	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.66	Cyfraniad Swyddog Apeliadau 11 o 12
439	Canda Copying	347.71	Rhentu a thaliadau copiau du a gwyn
440	Candy Copying	243.68	Taliadau copiau lliw
441	Sioned Graham-Cameron	170.29	Gwasanaeth cyfieithu
	Cyfanswm taliadau	23,154.01	

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

119. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w gwneud dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
442	Scottish Power	Cyflenwad trydan ar gyfer goleuadau	362.88
Cyfanswm taliadau			£362.88

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd A. R. James.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

120. AD-DREFNU PLISMONA LLEOL

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ebost (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) gan yr Arolygydd Sian Beck yn hysbysu'r Cyngor Tref o nifer o newidiadau mewn personél.

PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.

121. YMGYNGHORIAD: LLYWODRAETH CYMRU – AROLWG O'R SECTOR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU

Dywedodd Clerc y Dref ei fod ef a'r Cynghorydd Mrs J. Butterfield heddiw wedi mynychu'r ail ddigwyddiad ymgysylltu yn Wecsam a dosbarthodd ymateb y Cyngor Tref i'r pedwar cwestiwn gwreiddiol a gyflwynwyd yn flaenorol, i'r aelodau ei gymeradwyo.

Diolchwyd i Glerc y Dref am lunio ymateb cyflym ers dychwelyd o Wrecsam.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'w gyflwyno i'r panel annibynnol.

122. AROLWG RISG BLYNYDDOL

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y pwyllgor a'i gynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2018/19 (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Diolchodd yr aelodau i Glerc y Dref am lefel y gwaith yr oedd yn parhau i'w roi i gefnogi a galluogi gwaith yr Is-bwyllgor Asesu Risg.

Mynegwyd diolch hefyd i aelodau'r Is-bwyllgor am eu hymroddiad parhaus i rywbeth a oedd bob amser yn waith arwyddocaol.

PEWNDERFYNWYD cymeradwyo arolwg 2017/18 a chynllun 2018/19.

123. ADRODDIAD TERFYNOL PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU 2018/19

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr adroddiad terfynol uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau, gan ychwanegu y byddai adroddiad llawn ar y goblygiadau i'r Cyngor Tref yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mawrth y Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

124. EITEM GWYBODAETH YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion brys i'w codi.

125. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

126. CYTUNDEB ARIANNU GYDA CHYNGOR SIR DDINBYCH

Dosbarthodd Clerc y Dref gopïau o'r cytundeb i'r aelodau ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cytundeb ac awdurdodi'r Maer i'w lofnodi a rhyddhau'r taliad cyntaf.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

127. PENDERFYNU AR GAIS GAN GYMDEITHAS GYMUNEDOL Y RHYL AM GYFRANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r cais gan y gymdeithas ac argymhelliad yr is-bwyllgor i'w wrthod.

PENDERFYNWYD gwrthod y cais.

128. EITEM SEFYDLOG BOSIBL: ADRODDIADAU GWYBODAETH CYFRINACHOL GAN AELODAU CABINET CYNGOR SIR DDINBYCH

Esboniodd Clerc y Dref ei fod efallai wedi camddeall cais yr aelodau i gyflwyno'r eitem sefydlog hon fel cyfle i'r ddau gynghorydd a oedd hefyd yn aelodau o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych i ddarparu gwybodaeth nad oedd yn gyfrinachol i'r Cyngor Tref?

Efallai y byddai'n well gan yr aelodau i'r ddau gynghorydd siarad ag ef pan fydd gwybodaeth ddefnyddiol yn codi a fyddai o fudd i'r Cyngor Tref?

PENDERFYNWYD bod y ddau gynghorydd yn cysylltu â Chlerc y Dref ar sail ad hoc.

129. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

130. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad: